

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 22^{AIN} GORFFENNAF 2020
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Einir Williams (EW), R Emlyn Williams (REW), Mark Davies (MD), Elen H Edwards (EHE), Garffild Ll Lewis (GLL) a Diane Roberts (DR)

1.3 Ymddiheuriadau: Gwynfor Davies (GD)

1.4 Absennol: Gwyn Williams (GW) a Gwydion Jones (GJ)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 24^{AIN} MEHEFIN 2020

Cynnigwyd yn gywir gan EHE ac eilwyd gan MD.

4 MATERION YN CODI

DR yn adrodd nad oedd laptop Elwen ganddi. Laptop wedi ei adael efo'r printer ym Mhandy Tudur pan oedd y Cynghorwyr yn mynd trwy hen ddogfennau. REW am edrych yn y cwpwrdd yn Llangernyw i weld os yw'r laptop yno.

Adroddod EW fod Arfon Parry wedi codi nad oedd dogfen awdit llynedd ar y wefan. Mae'n debyg fod y ddogfen yma yn cael ei gyrru pan fydd BDO yn gyrru manylion eleni yn ôl i'r Cyngor.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim ceisiadau cyllunio wedi dod i law.

6 MATERION Y CYNGOR

6.1 Rheolau Sefydlog: trafodwyd y rheolau a derbynwyd y rheolau diwygiedig gan y Cynghorwyr. AV yn cynnig fod angen cyfieithu rhain, EW yn eilio.

6.2 Rheolau Ariannol: trafodwyd y ddogfen â'r atodiad a derbynwyd gan y Cyngor. Penderfynwyd fod angen cyfieithu'r rheolau yma hefyd, cynnigwyd gan AV ac eilwyd gan DR.

6.3 Rheolau Mynwentydd: trafodwyd y rheolau, cadarnhawyd fod dim angen unrhyw newid ar rhain. Derbynwyd y rheolau'n gywir gan y Cyngor.

7 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

GLL yn adrodd fod y gwaith wedi ail gychwyn yn y Cyngor Sir yn dilyn Covid-19. Llongyfarchwyd EHE ar ei swydd newydd yn y Cyngor yn yr adran dwristiaeth.

GLL yn adrodd fod y misoedd nesaf yn mynd i fod yn heriol iawn i'r Cyngor.

Ar lefel leol, dywedodd fod gwaith trwsio ffyrdd ayyb yn cael ei gwblhau. Gwaith wrth y Bont Faen wedi cychwyn yn ddiweddar, trafodaethau rhwng Cyngor Sir a Cyfoeth Naturiol Cymru i godi lefel y wal i atal llifogydd yn y dyfodol.

Gofynnodd EHE os yw GLL yn ymwybodol am yr arian sydd wedi dod i mewn i'r Sir i gael arwyddion 20mya tu allan i ysgolion. GLL am wneud ymholiadau i gael yr arwyddion ar gyfer Llangernyw.

8 BILIAU

8.1 Dei Evans, torri glaswellt yn y mynwentydd £400. Cytunwyd i dalu.

8.2 Arfon Parry – gwaith gwefan.

8.3 Enlli cyflog: £49.61, cytunwyd i dalu.

9 MATERION LLEOL

REW soniodd fod twll yn ffordd Pant Llydan ers dwy flynedd, GLL wedi ei godi efo'r Cyngor ac am fynd ar ôl y mater. GLL yn codi fod y Cyngor Sir wedi ail agor parciau yn ddiweddar ond ddim un Gwytherin oherwydd fod difrod yno. EW wedi bod ym mharc Gwytherin cyn y cyfarfod a wedi sylwi fod y clo ar y giât â'r arwydd yn dweud fod y parc ar gau wedi mynd er eu bod yno ddoe.

DR trigolion yn gofyn os oedd modd cael arwyddion ffordd ger Hafodunos ymhellach allan o'r pentref. Hefyd arwyddion dim parcio yng ngheg ffordd Fedwen Arian, GLL am wneud ymholiadau.

EW wedi cael negeseuon gan drigolion Gwytherin: ffyrdd Pennant, Hendre ac Allt Felin Isaf wedi mynd yn wael, ffos agored yng ngheae Dolfadyn dal heb ei chlurio yn dilyn llifogydd yn gynharach eleni. EW am eu cofnodi ar Report It ar wefan y Cyngor.

Cwyn am faw ci yng Ngwytherin, diffyg yn y pentref. GLL am wneud ymholiadau i drefnu cael bin yn y pentref.

Ysgol Dyffryn Conwy wedi bod yn gyrru at rhieni fydd yn cychwyn ym mlwyddyn 7 yn rhybuddio na fydd trafndiaeth i'r disgyblion ar gyfer mis Medi. Yn amlwg fydd hyn ddim yn ymarferol ac yn achosi pryder a phoen meddwl i rieni. Bydd angen digon o rybydd cyn mis Medi os bydd angen i rieni wneud trefniadau eraill. GLL wedi gofyn am bwylgor brys y sector addysg cyn mis Medi i drafod y canllawiau fydd angen bod mewn lle.

CR ar ran GD tynnu sylw fod angen trafod Cronfa Bro Cernyw arwahan i faterion y Cyngor a'u cofnodi felly yn y cofnodion.

10 CYFARFOD NESAF

23^{ain} Medi 2020 (Cyfarfod Blynyddol os bydd modd cyfarfod mewn Canolfan)

Cyfarfod yn dod i ben 8:45pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan